

TAG UWCH

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

1570CS

Arholiadau Haf 2022

Uned 3	Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc	Dydd Mawrth, 24 Mai 2022
Uned 5	Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion	Dydd Mawrth, 24 Mai 2022

Gwybodaeth Ymlaen Llaw

Gwybodaeth gyffredinol i fyfyrwyr ac athrawon

Mae'r wybodaeth ymlaen llaw hon yn rhoi ffocws i'r hyn y bydd papurau arholiad uned 3 ac uned 5 Haf 2022 yn ei gynnwys.

Nid yw'n berthnasol i unrhyw gyfres arholiadau arall.

Bwriad y wybodaeth hon yw cefnogi'r broses o adolygu.

Gellir ei defnyddio ar unrhyw adeg o'r dyddiad y cafodd ei rhyddhau.

Ni ddylid mynd â'r wybodaeth hon i mewn i'r arholiad.

Rhyddhawyd: 10 Ionawr 2022

Gwybodaeth am y pwnc i fyfyrwyr ac athrawon

Mae rhagor o wybodaeth am addasiadau i gymwysterau CBAC TGAU a TAG yn 2022 ar gael yn: <https://www.cbac.co.uk/home/addasiadau-haf-2022/>

Mae'r wybodaeth ymlaen llaw hon yn ymdrin ag Unedau 3 a 5 yn unig.

Awgrymir y dylid canolbwyntio'n benodol ar y meysydd cynnwys sy'n dilyn wrth adolygu a pharatoi'n derfynol, yn barod at arholiad Haf 2022.

Bydd y meysydd testun canlynol yn cael eu profi drwy'r cwestiynau tariff uwch yn bennaf, ond nid yn unig. Ymdrinnir â chynnwys pwnc arall yn y cwestiynau sy'n weddill.

Y nod o hyd yw ymdrin â holl gynnwys y fanyleb wrth addysgu a dysgu.

Uned 3

	Cynnwys	Ymhelaethu
2.3.1 Damcaniaethau ac egwyddorion datblygiad plant	(a) Meysydd datblygu allweddol mewn plant a phobl ifanc: corfforol, gwybyddol, ieithyddol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol	Dylai dysgwyr ddeall y meysydd datblygu allweddol mewn plant a phobl ifanc (0-18 oed): <ul style="list-style-type: none">• Iaith• Emosiynol a chymdeithasol
	(b) Sut mae damcaniaethau ac egwyddorion yn ymwneud â datblygiad plant	Dylai dysgwyr ddeall sut mae'r safbwyntiau seicolegol allweddol a damcaniaethau cysylltiedig yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant: <ul style="list-style-type: none">• Seicodynamig• Gwybyddol• Dysgu Cymdeithasol• Cryfderau a chyfyngiadau'r gwahanol ddamcaniaethau a dulliau• Sut mae technegau a dulliau, yn deillio o'r damcaniaethau, yn ymwneud â datblygiad plant• Sut gellir defnyddio'r technegau a'r dulliau hyn i gefnogi datblygiad plant
2.3.2 Pwysigrwydd chwarae wrth ddysgu a datblygu	(a) Diffiniadau o chwarae a gwaith chwarae	Diffiniadau o chwarae a gwaith chwarae.
	(b) Pwrpas chwarae	Pwrpas chwarae.
	(ch) Mathau o chwarae	Dylai dysgwyr wybod am y mathau gwahanol o chwarae: <ul style="list-style-type: none">• Chwarae creadigol• Chwarae amgylcheddol Sut mae'r gwahanol fathau o chwarae yn cefnogi'r meysydd datblygiad allweddol
2.3.3 Ymddygiad plant a phobl ifanc	(a) Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc	Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc.
	(b) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol	Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol.

Uned 5

	Cynnwys	Ymhelaethu
2.5.1 Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion	(a) Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion	Dylai dysgwyr ddeall y meysydd datblygiad allweddol mewn oedolion a all effeithio ar ymddygiad: <ul style="list-style-type: none">• Seicolegol• Biolegol• Cymdeithasegol• Corfforol
	(b) Pwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch wrth ddelio â lleoliadau a sefyllfaoedd gofal	Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch oedolion wrth ddelio â lleoliadau a sefyllfaoedd gofal. Cadarnhaol: <ul style="list-style-type: none">• Ymaddasu i'r sefyllfa y gall unigolyn ei gael ei hun ynddi• Gallu dibynnu ar botensial yr unigolyn ei hun• Gallu gwrthsefyll straen• Meithrin hunangysyniad cadarnhaol• Creu darlun mwy realistig a chywir o'r byd• Symud ymlaen ar ôl methu
2.5.2 Deall safbwyntiau sy'n effeithio ar ymddygiad oedolion	(a) Damcaniaethau allweddol sy'n ymwneud â deall a rheoli ymddygiadau penodol	Dylai dysgwyr ddeall sut mae'r safbwyntiau seicolegol allweddol a'r damcaniaethau cysylltiedig yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad pobl: <ul style="list-style-type: none">• Damcaniaeth Ymddygiad• Gwybyddol• Biolegol Cryfderau a chyfyngiadau'r gwahanol ddamcaniaethau a dulliau
2.5.3 Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol	(a) Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol	Strategaethau a dulliau sy'n cefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol <ul style="list-style-type: none">• Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol• Cefnogaeth Weithredol

Diwedd y wybodaeth ymlaen llaw